## Atodiad A: Cwestiynau i gefnogi asesiad

Wrth benderfynu cynnwys yr heddlu ai peidio a/neu wasanaethau cymdeithasol plant, dylid ystyried y cwestiynau canlynol. Bydd ateb y cwestiynau hyn yn cynorthwyo'r DSP wrth ystyried a yw plentyn neu berson ifanc yn wynebu risg o niwed, ac os ydyw bydd yn briodol rhoi adroddiad am yr achos, p'un a oes angen mwy o wybodaeth neu gymorth gan asiantaethau eraill neu a all y lleoliad reoli'r digwyddiad a chynorthwyo'r bobl ifanc yn uniongyrchol.

| **A oes gennych chi unrhyw bryderon am y ffaith bod y plentyn neu'r person ifanc yn agored i niwed?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Dylid ystyried a yw amgylchiadau, rhywioldeb neu gefndir person ifanc yn golygu ei fod yn fwy agored i niwed. Gallai hynny gynnwys bod mewn gofal, bod ag anghenion dysgu ychwanegol neu anabledd, bod yn ofalwr ifanc, neu fod wedi dioddef camdriniaeth. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr a dylid ystyried pob achos yn unigol. Os oes gan y plentyn weithiwr cymdeithasol, dylech roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol am y digwyddiad.<br><br>Pan fo pryderon ehangach am ofal a llesiant person ifanc, dylid ystyried atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol plant. |

| **Pam y rhannwyd y ddelwedd noeth neu hanner noeth? A wnaethpwyd hynny'n gydsyniol neu a roddwyd pwysau ar y plentyn neu'r person ifanc?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Mae cymhellion plant a phobl ifanc dros rannu delweddau noeth a hanner noeth yn cynnwys fflyrtio, meithrin ymddiriedaeth mewn perthynas ramantus, ceisio sylw, neu am eu bod yn meddwl ei fod yn rhywbeth doniol i'w wneud ac na wnaethant feddwl am y canlyniadau.<br><br>Er bod yna risgiau amlwg pan rennir delweddau'n gydsyniol, mae plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu rhoi dan bwysau i rannu delweddau noeth a hanner noeth yn fwy tebygol o adrodd am ganlyniadau negyddol.<br><br>Dylid adrodd am yr achos i'r heddlu os bydd plentyn neu berson ifanc wedi cael ei roi dan bwysau i rannu delweddau noeth a hanner noeth, neu pan fo delwedd yn cael ei rhannu heb gydsyniad a gyda bwriad maleisus.<br><br>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa. |

| | |
|---|---|
| | Dylid cymryd camau, yn unol â pholisi ymddygiad y lleoliad, gydag unrhyw blentyn neu berson ifanc a gafodd ei roi dan bwysau neu ei gymell i rannu delweddau noeth a hanner noeth. Os bydd hynny'n rhan o batrwm o ymddygiad, dylech ystyried atgyfeirio i wasanaeth ymddygiad rhywiol niweidiol (drwy wasanaethau cymdeithasol), megis gwasanaeth Taith Barnardo's. Hefyd, mae gan yr NSPCC wasanaeth, sef Protect and Respect, ar gyfer plant a phobl ifanc 11–19 oed y mae angen cymorth arnynt o bosibl i ddysgu am gydberthynas iach neu ar gyfer y plant a phobl ifanc hynny y gall rhywun fod yn camfanteisio arnynt yn rhywiol. |

| **A yw'r ddelwedd noeth a hanner noeth wedi cael ei rhannu'n fwy eang nag i'r un y bwriadwyd iddo ei derbyn? A rannwyd y ddelwedd heb gydsyniad y plentyn neu'r person ifanc a gynhyrchodd y ddelwedd?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Efallai bod y ddelwedd wedi cael ei rhannu ar y cychwyn gyda chydsyniad, ond ei bod wedyn wedi cael ei rhannu ag eraill. Efallai bod plentyn neu berson ifanc wedi rhannu'r ddelwedd ymhellach gyda bwriad maleisus, neu efallai nad oedd yn deall yn iawn beth fyddai'r canlyniadau posibl.<br><br>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysg ychwanegol ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa.<br><br>Dylid hysbysu'r heddlu drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo os bwriadwyd achosi niwed drwy rannu'r ddelwedd neu os defnyddiwyd y ddelwedd er mwyn bwlio neu flacmelio plentyn neu berson ifanc. |

| **A rannwyd y ddelwedd noeth neu hanner noeth ar y cyfryngau cymdeithasol neu'n unrhyw le arall ar-lein? Os digwyddodd hynny, pa gamau a gymerwyd i gyfyngu ar ledaenu'r ddelwedd?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Os rhannwyd y ddelwedd yn eang ar y cyfryngau cymdeithasol, gallai hynny achosi embaras sylweddol i'r plentyn neu'r person ifanc a gallai effeithio'n hirdymor ar ei enw da. Gallai hefyd gynyddu'r risg iddo gael ei fwlio neu ddod i gysylltiad â dieithriaid ar-lein.<br><br>Dylai'r plentyn neu'r person ifanc gael ei gefnogi i adrodd am y ddelwedd i unrhyw wefannau y mae'n ymddangos arnynt. Mae gwybodaeth am adrodd ar gael yn adran 3.<br><br>Os yw'r plentyn neu'r person ifanc wedi ceisio adrodd am y ddelwedd, ac nad yw wedi'i dileu, dylai ddefnyddio adnodd |

| | |
|---|---|
| | IWF a Childline Report Remove yn www.childline.org.uk/info-advice/bullying-abuse-safety/online-mobile-safety/sexting/report-nude-image-online/.<br><br>Os bydd angen iddo siarad â rhywun yn ddienw yna gall Childline neu Meic gynnig cymorth emosiynol.<br><br>Gellir ffonio Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol (POSH) am ragor o gyngor a chymorth.<br><br>Os bydd dieithriaid sydd wedi gweld y ddelwedd yn cysylltu â pherson ifanc, dylech adrodd am hynny i NCA-CEOP. |

| **Beth yw oedran y person ifanc neu'r bobl ifanc dan sylw?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Nid yw plant o dan 13 oed yn gallu cydsynio i weithgaredd rhywiol. Er mai 16 yw'r oedran cydsynio i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol, mae Deddf Troseddau Rhywiol 2003 yn darparu gwarchodaeth ychwanegol rhag camdriniaeth rywiol i blant o dan 13 oed, oherwydd ni allant roi cydsyniad cyfreithiol i unrhyw fath o weithgaredd rhywiol. Dylid cyfeirio unrhyw ddelwedd sy'n cynnwys gweithgaredd rhywiol gan rywun o dan 13 oed i'r heddlu.<br><br>Gall fod yn hŷn roi pŵer i rywun mewn perthynas, felly os oes yna wahaniaeth oedran sylweddol, gall hynny fod yn arwydd bod y plentyn neu'r person ifanc wedi teimlo dan bwysau i gymryd y ddelwedd/fideo neu i'w rhannu.<br><br>Hefyd dylid ystyried lefel aeddfedrwydd y plentyn neu'r person ifanc ac effaith unrhyw anghenion dysgu ychwanegol ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa.<br><br>Os ydych chi'n credu bod y ddelwedd yn cynnwys gweithredoedd na fyddech chi'n disgwyl i blentyn neu berson ifanc o'r oedran hwnnw fod yn ymwneud â hwy, dylech adrodd y mater i'r heddlu, drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo. Gall Adnodd Goleuadau Traffig Ymddygiadau Rhywiol Brook (gweler www.brook.org.uk/our-work/the-sexual-behaviours-traffic-light-tool/) gael ei ddefnyddio i'ch helpu gyda'r asesiad hwn. |

| **A fu i'r plentyn neu'r person ifanc anfon y ddelwedd i fwy nag un person?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Os bydd plentyn neu berson ifanc yn rhannu delweddau noeth a hanner noeth â nifer o bobl, gallai hynny fod yn arwydd bod |

| | |
|---|---|
| | ganddo broblemau y mae angen cymorth i'w datrys. Dylid ystyried eu cymhelliant i rannu'r delweddau.<br><br>Os ydych chi'n credu bod pryderon ehangach yn bodoli mewn perthynas â diogelu, dylech gyfeirio'r mater i'r gwasanaethau cymdeithasol plant neu'r heddlu, drwy MASH neu'r hyn sy'n cyfateb iddo. |

| **A yw'r plentyn neu'r person ifanc yn deall goblygiadau posibl rhannu'r ddelwedd noeth neu hanner noeth?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Gall plant a phobl ifanc gynhyrchu neu rannu delweddau heb ddeall yn iawn beth yw canlyniadau'r hyn maent yn ei wneud. Efallai nad ydynt, er enghraifft, yn deall sut mae hynny'n achosi risg iddyn nhw eu hunain neu'n achosi niwed i berson ifanc arall. Hefyd, efallai nad ydynt yn deall beth yw cydsynio.<br><br>Gall archwilio eu dealltwriaeth eich helpu i gynllunio ymateb priodol, a'ch helpu i asesu, er enghraifft, a ydynt wedi rhannu delwedd yn fwriadol er mwyn achosi niwed. |

| **A oes yna bryderon ychwanegol os hysbysir y rhieni/gofalwyr?** | |
|---|---|
| Pam gofyn y cwestiwn hwn? | Dylid hysbysu'r rhieni/gofalwyr am ddigwyddiadau o'r natur hwn oni bai fod yna reswm da i gredu y gallai eu hysbysu achosi risg i'r plentyn neu'r person ifanc. Gallai hynny fod o ganlyniad i bryderon ynghylch camdriniaeth gan rieni/gofalwyr neu ffactorau diwylliannol neu grefyddol allai effeithio ar sut y bydden nhw neu eu cymuned yn ymateb.<br><br>Os bydd plentyn neu berson ifanc yn cyfeirio at bryderon ynghylch cynnwys eu rhieni/gofalwyr dylai'r DSP ddefnyddio ei farn broffesiynol i benderfynu a yw'n briodol cynnwys y rhieni/gofalwyr, a phryd y dylid gwneud hynny. Os bydd lleoliad yn dewis peidio â chynnwys rhieni/gofalwyr, mae'n rhaid iddo gofnodi'n glir beth yw'r rhesymau dros beidio â gwneud hynny.<br><br>Pan fo'n bosibl, dylid cynorthwyo plant a phobl ifanc i siarad â'u rhieni/gofalwyr am y pryderon. |